

Cllr Nicole Burnett

Rydw i wir yn falch bod y fframwaith yma wedi'i sefydlu. Mae wedi cymryd dwy flynedd iddo gael ei greu mewn gwirionedd ac mae wedi bod yn uchelgais gennym ni fel cyngor ers amser maith bod buddiannau gorau'r plentyn a'r teuluoedd rydyn ni'n gweithio â nhw yn rhan ganolog bob amser o bopeth rydyn ni'n ei wneud. Ond yn flaenorol doedd y gwaith papur a'r gweithdrefnau a'r polisiau ddim bob amser yn mowldio o amgylch yr unigolion yn y ffordd y dylen nhw ac felly rydyn ni wedi gweithio'n galed iawn i edrych ar y sylfaen o dystiolaeth ac arfer da ar draws y rhanbarth. Mae wedi golygu llawer iawn o waith, mae ein swyddogion ni wedi gweithio'n galed iawn, ac rydw i'n teimlo nawr 'mod i'n hyderus mai'r model seiliedig ar ganlyniadau yma yw'r ffordd fwyaf effeithiol o weithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i'n plant a'n teuluoedd ni.

Hannah Thomas

Mae'r dull canlyniadau o weithredu'n seiliedig ar gryfderau neu berthnasoedd mewn perthynas â gwaith cymdeithasol. Mae'n canolbwyntio ar egwyddorion ac ethos Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru, sef egwyddorion Llesiant, llais, dewis a rheolaeth, cydweithredu a chydgyhyrchu, felly gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd, ymyriadau ac atal cynnar. Y nod yw i ymarferwyr gael sgysiaau ystyrllon gyda theuluoedd a gyda phlant a phobl ifanc i weld beth sydd o bwys iddyn nhw, beth sy'n bwysig, a beth maen nhw eisiau ei gyflawni.

Raeanna Grainger

Yn fy nhîm i, y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol, rydyn ni wir yn mynd i elwa o'r dull newydd hwn o weithredu. Rydyn ni wir yn ei groesawu, mae'n gwneud pethau'n llawer cliriach, mae'n rhoi teuluoedd a phlant yn ganolog yn y broses yma, sydd wrth gwrs yn mynd i fod yn fuddiol. Rydw i'n meddwl y bydd dull â'i ffocws ar ganlyniadau o weithredu'n lleihau'r amser y mae gwasanaethau plant yn ymwneud â'r teulu o bosib, felly mae hynny'n sicr yn well i fy nhîm i. Rydw i'n meddwl y byddwn ni gobeithio'n gweld budd mawr o ran enwau plant yn dod oddi ar y gofrestr amddiffyn plant yn fwy amserol, oherwydd gyda'r dull hwn o weithredu â'i ffocws ar ganlyniadau, mae'n llawer haws tracio cynnydd a dangos tystiolaeth o newid, ac felly mae hynny'n fuddiol wrth reswm i weithwyr proffesiynol o ran eu hasesiadau, ond hefyd yn fuddiol iawn i deuluoedd oherwydd maen nhw'n gallu gweld y cynnydd maen nhw'n ei wneud. Ac rydw i'n meddwl ei bod yn bwysig iawn bod hynny'n cael ei gydnabod. Yn sicr ar gyfer y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol, rydw i'n meddwl y bydd yn llawer haws i ni ddangos tystiolaeth o newid positif, a chynnal y newid hwnnw, ond hefyd gobeithio y bydd yn lleihau'r niferoedd, neu'r amser yn sicr, y mae Gwasanaethau Plant yn gweithio gyda theuluoedd. Felly rydw i'n meddwl y bydd yn fuddiol iawn. Does dim tir llwyd gyda dull o weithredu â'i ffocws ar ganlyniadau. Mae'n glir iawn am beth rydyn ni eisiau ei gyflawni wrth weithio gyda'r teuluoedd, felly pan rydw i'n goruchwylio staff, rydw i'n gliriach, maen nhw'n gliriach, am beth yn union rydyn ni'n ceisio ei wneud yma. Felly fe fyddwn ni'n elwa, fe fydda' i'n elwa o hyn, mae llai o dir llwyd ac fe fydd hynny'n ei wneud yn haws yn naturiol o ran sut rydw i'n goruchwylio fy staff.

Stephen Owen

Mae gofalwyr maeth yn chwarae rhan greiddiol yn y gofal maen nhw'n ei ddarparu i blant a'r gefnogaeth maen nhw'n ei darparu i'r awdurdod lleol o ran sicrhau bod cynlluniau gofal yn cael eu bodloni. Mae cael gofalwyr maeth i weithio gan ddefnyddio dull â'i ffocws ar ganlyniadau o weithredu'n galluogi iddyn nhw gael cynllun clir a chyfeiriad clir a thrwy wneud hynny maen nhw yn y sefyllfa orau i gefnogi'r plant o ran deall beth yw eu cynlluniau gofal, a pham mae'r cynlluniau gofal hynny wedi cael eu rhoi ar waith. Weithiau gall gwyrto ddigwydd mewn achosion ac felly mae cael dull canlyniadau o weithredu wrth weithio gyda phlant yn grymuso'r plant. Maen nhw'n gwybod yn union beth fydd y cynllun, sut bydd yn cael ei weithredu, ac mae'n galluogi iddyn nhw fod yn rhan ganolog o'r broses hefyd, oherwydd mae ganddyn nhw farn a safbwyntiau sy'n eithriadol bwysig yn y broses o gynllunio gofal; maen nhw'n cyfrannu at bethau fel adolygiadau blynyddol gofalwyr maeth, adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, ac mae adborth yn cael ei roi. Felly, yn aml iawn, mae plant sy'n derbyn gofal yn wynebu argyfwng a thrawma oherwydd eu gorffennol felly mae cael cynllun gofal a chyfeiriad i symud ymlaen yn siŵr o'u helpu.

Hannah Thomas

Mae'n rhaid i'r canlyniadau rydyn ni'n eu nodi fod yn benodol, mae'n rhaid iddyn nhw fod yn fesuradwy ac mae'n rhaid iddyn nhw fod yn unigol ac yn unigryw i'r plentyn neu'r teulu hwnnw ac, os yw'n bosib, mae'n rhaid i ni ddeall y rheiny yng ngeiriau'r plentyn neu'r person ifanc ei hun, neu eiriau'r rhieni, fel bod unrhyw gynllun sy'n cael ei greu'n ystyrlon, pwrpasol a phenodol iddyn nhw.

Reanna Grainger

Rydw i'n meddwl mai gwir gryfder y dull o weithredu â'i ffocws ar ganlyniadau yw ei bod yn gymaint haws olrhain cynnydd a dangos tystiolaeth o newid. Mae hynny'n ddefnyddiol iawn i deuluoedd, pan rydych chi'n eu rhoi nhw'n ganolog mewn proses, ac maen nhw'n teimlo mwy o reolaeth, ac wedyn maen nhw'n ymrwymo llawer mwy i'r broses honno o gyflawni newid a chynnal y newid hwnnw, yn hytrach na theimlo bod rhywbeth yn cael ei wneud iddyn nhw.

Stephen Owen

Mewn proffesiwn lle mae lefel uchel o drosiant yn aml mewn gweithwyr cymdeithasol, mae cael cynllun â'i ffocws ar ganlyniadau yn galluogi os oes newid mewn gweithiwr cymdeithasol, byddai gan y gweithiwr cymdeithasol newydd wybodaeth glir am beth yw'r cynllun hwnnw, sut bydd yn cael ei weithredu, beth sydd angen digwydd er mwyn galluogi iddo ddigwydd, ac mae hynny'n hynod o bwysig pan rydyn ni'n ystyried parhad i bobl ifanc, fel gorchmynion gwarcheidwaeth arbennig. Mae'n eithriadol bwysig bod parhad i blant yn cael ei ddiogelu'n amserol a thrwy fabwysiadu dull o weithredu â'i ffocws ar ganlyniadau, mae'n galluogi i ni gynllunio'n effeithiol, bod ag amserlenni clir a bod â chyfrifoldebau clir i bob person yn y cynllun hwnnw i'w alluogi.

Hannah Thomas

Mae rheolwyr a'r rhai mewn swyddi goruchwylio wedi cael hyfforddiant mewn goruchwylio gan ddefnyddio'r model canlyniadau. Mae pwyslais mawr ar arfer adlewyrchol a chefnogi ymarferwyr i fynd at wraidd y broblem a deall y risgiau blaenoriaeth yn llawn. Eto mae'n modelu'r dull o weithredu seiliedig ar gryfderau mae'r model canlyniadau'n ei gyflawni ar draws y Gwasanaethau Plant. Mae'n rhaid i ni fod yn gofyn beth sy'n gweithio, ble rydyn ni eisiau mynd, sut mae cyrraedd yno a sut rydyn ni'n cynnwys teuluoedd hefyd, er mwyn gwneud hynny.

Raeanna Grainger

Mae'r dull hwn o weithredu'n eu helpu nhw i ddatblygu sgiliau ac mae'n rhoi'r gefnogaeth briodol iddyn nhw i fod y rhieni gorau y gallant fod. Ac os yw eu plant nhw'n ffynnu o ganlyniad i hynny, rydw i'n credu mai hwnnw yw'r canlyniad gorau y gall unrhyw un obeithio amdano. Ond o ran gwaith y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol, fy nhîm i, rydw i'n meddwl o ran llawer o'r teuluoedd hynny rydyn ni'n gweithio â nhw, y canlyniad positif iddyn nhw fyddai cael enw eu plentyn yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, ac mae'r dull hwn o weithredu'n eu helpu nhw oherwydd mae'n gwneud pethau'n llawer cliriach. Mae'r disgwyliadau perthnasol iddyn nhw'n gliriach ac felly maen nhw'n gwybod yn union beth sydd raid iddyn nhw ei wneud er mwyn cyflawni hynny ac fel rydw i wedi dweud, rydw i'n meddwl bod unrhyw broses sy'n rhoi mwy o reolaeth iddyn nhw, a'u bod nhw'n gliriach, mae'n siŵr o fod o help ac arwain at ganlyniadau llwyddiannus. Ac wrth gwrs mae'r rhain yn ganlyniadau mae'r teuluoedd eu hunain wedi'u nodi fel rhai sydd eu hangen, nid dim ond pobl broffesiynol yn dweud wrthyn nhw, felly rydw i'n meddwl eu bod nhw'n llawer mwy tebygol o gefnogi'r broses honno.

Claire Marchant

Rydw i'n eithriadol falch o fod yn siarad yn lansiad y Model Canlyniadau yn y Gwasanaethau Plant yma ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Rydw i'n teimlo ei fod yn bwysig iawn bod y model hwn yn sail i bopeth rydyn ni'n ei wneud, nid dim ond yn y tymor byr, ond ar gyfer y tymor canolig a hir hefyd. Mae'r model yma'n ymwneud â pherthnasoedd arbennig o dda gyda phlant a gyda theuluoedd, deall beth sy'n bwysig iddyn nhw, a galluogi ein gweithwyr cymdeithasol ni, ein gweithlu rheng flaen, i wneud beth sy'n bwysig, a chael gwared ar rywfaint o'r fiwrocratiaeth, rhai o'r systemau a fyddai wedi bod yn rhwystr i wneud y peth iawn. Rydw i'n credu ei fod yn galluogi i ni ddangos cynnydd a newid positif ac yn sicr mae'n cyd-fynd â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant o ran gwneud yr hyn sy'n bwysig, a'r hyn y dylai arwain ato i'n plant a'n teuluoedd ni yw cyflawni'n llawer cynt y canlyniadau maen nhw eisiau eu cyflawni, ac i ni fel gweithwyr proffesiynol allu gweld mwy o blant yn aros yn byw gyda'u teuluoedd eu hunain yn eu cymunedau eu hunain, neu'n sicrhau gofal a chymorth yn gynt ar gyfer llety parhaol. Rydw i'n meddwl bod hwn yn ddechrau ar siwrnai hir iawn, iawn a dyma sut byddwn ni'n ymarfer, nid yn unig am y flwyddyn neu ddwy nesaf, ond am y pump, deng mlynedd nesaf, ac fe welwn ni newid gwirioneddol a chynaliadwy yn ystod y cyfnod hwnnw. Rydw i'n meddwl ei fod yn gyfle gwych i weithwyr cymdeithasol ymarfer yn y ffordd maen nhw wedi cael eu hyfforddi a hefyd mae'n rhaid i ni weld newidiadau yn y ffordd mae ein gwasanaethau ni'n cael eu darparu, y gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu a'n gwasanaethau mewnol, er mwyn iddyn nhw allu ymteb i'r cynlluniau gofal â'u ffocws ar ganlyniadau mae'r gweithwyr cymdeithasol

yn eu datblygu. Rydw i'n gyffrous iawn am y rhan honno o'r siwrnai yn ogystal â'r rhan rydyn ni wedi'i chyrraedd hyd yma. Rydw i eisiau diolch i bawb sydd wedi chwarae eu rhan hyd yma, mae hwn wedi bod yn waith enfawr ar draws yr adran gyfan ac rydw i'n edrych ymlaen yn fawr at fod yn rhan o'r siwrnai honno a'i harwain wrth i ni symud ymlaen.